*Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael /An English version of this document is available.*

# Gweithdrefnau Estyniadau ac Amgylchiadau Lliniarol

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion am weithdrefnau'r coleg mewn perthynas â cheisiadau am estyniadau i ddyddiadau cyflwyno asesiadau a hefyd ar gyfer ystyried amgylchiadau lliniarol. Fe'i bwriedir at ddefnydd dysgwyr CCAF a gweithwyr y coleg.

Mae'r gyfres hon o weithdrefnau ond yn berthnasol i raglenni addysg uwch sydd wedi eu cymeradwyo i gael eu rhedeg a'u dyfarnu gan Pearson Education Ltd. Maent yn seiliedig ar BTEC Higher Nationals Pearson's.
Canllawiau'r Ganolfan ar gyfer Sicrwydd Ansawdd ac Asesiad a Chod Ansawdd QAA UK ar gyfer Addysg Uwch.

## Estyniadau

Ymdrinnir â cheisiadau am gael estyn dyddiad cyflwyno asesiad yn seiliedig ar yr egwyddorion isod:

- Dim ond lle mae rhesymau cyfiawn ac amgylchiadau esgusodol, megis salwch ar adeg cyflwyno, y bydd estyniadau yn cael eu hystyried ar gyfer eu hawdurdodi.
- Mae'n rhaid i fyfyrwyr wneud cais ffurfiol am estyniad gan ddarparu tystiolaeth o'r rhesymau dros beidio â chadw at y dyddiad cau.
- Dylid gwneud cais am estyniad o leiaf 5 diwrnod cyn dyddiad cau'r asesiad.
- Fel arfer ni fydd hyd yr estyniadau yn mynd y tu hwnt i 2 wythnos ac ni ddylai hyn ddigwydd wedi i'r adborth cyfansymiol gael ei roi i'r myfyrwyr eraill sy'n dilyn y cwrs.
- Dylai'r holl estyniadau a gymeradwyir gan yr Arweinydd Rhaglen gael eu recordio a bod ar gael i'r Bwrdd Asesu ac i'r Arholwr Allanol. Mae cofnodi manylion am estyniadau yn galluogi'r Bwrdd Asesu a'r Arholwr Allanol i gadarnhau bod y rhaglen yn gweithredu'n gyson yn unol â pholisïau a chanllawiau CCAF a Pearson's.

**Rhesymau dros Wneud Cais am Estyniad**

1. Dylid cyflwyno pob cais am estyniad o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cyflwyno.
2. Dylid cwblhau a dychwelyd y ffurflen gais am Estyniad (gweler Atodiad A) at yr Arweinydd Rhaglen, gyda chopi i headminteam@cavc.ac.uk


Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.


| | |
|---|---|
| **Rhif Adolygiad:** | 2 |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | 08/03/24 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 08/03/26 |

3. Os yw'n cael ei gymeradwyo, bydd dyddiad cyflwyno pellach yn gael ei osod a bydd yr asesiad yn cael ei raddio fel pe bai'n cael ei gyflwyno am y tro cyntaf.
4. Cedwir cofnod o'r estyniad a bydd yn cael ei gofnodi a'i gyfeirio ato yn y Bwrdd Asesu.

## Amgylchiadau Lliniarol

Dylai myfyrwyr sy'n astudio rhaglenni Addysg Uwch yn CCAF wneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn gallu astudio ac ymgymryd ag asesiadau yn ôl tîm y rhaglen. Disgwylir hefyd i fyfyrwyr wneud pob ymdrech i gydymffurfio gyda dyddiadau cyflwyno'r asesiadau a chwblhau eu rhaglen o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Fodd bynnag, mae adegau pan fydd myfyrwyr yn wynebu anawsterau andwyol fydd yn effeithio ar eu cynnydd academaidd.

Amgylchiadau lliniarol (y cyfeirir atynt hefyd fel amgylchiadau esgusodol neu arbennig) yw unrhyw amgylchiadau difrifol y tu hwnt i reolaeth y myfyriwr a allai fod wedi effeithio'n andwyol ar ei b/pherfformiad; gall hyn gynnwys cyflwyno asesiadau hwyr heb eu hawdurdodi neu beidio â chyflwyno asesiadau.

Mae'r rheolaeth briodol o amgylchiadau lliniarol sy'n effeithio ar astudiaethau ac asesiadau myfyriwr yn bwysig er mwyn sicrhau bod safonau academaidd yn cael eu cynnal a bod myfyrwyr yn credu eu bod yn cael eu trin yn deg.

Mae myfyrwyr yn gyfrifol am adrodd, mewn modd amserol, am unrhyw amgylchiadau lliniarol a allai effeithio ar eu canlyniadau, gan ddefnyddio'r gweithdrefnau a nodir isod. Rhaid i hawliadau am amgylchiadau lliniarol gael eu cefnogi gan dystiolaeth briodol a rhaid i'r amgylchiadau fod yn berthnasol i'r effaith honedig. Lle bynnag y bo'n bosib, dylid gwneud addasiadau rhesymol i ganiatáu myfyrwyr i fynychu gweithgareddau dysgu ac i gwblhau gwaith cwrs.

Dylai hawliadau ar gyfer amgylchiadau lliniarol gael eu trin yn deg ac yn gyfartal, yn unol â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywedd y coleg, ac ni ddylai myfyrwyr sy'n dangos yr angen am amgylchiadau lliniarol fod dan anfantais yn ddiangen nac ychwaith gael mantais dros fyfyrwyr eraill.

**Diffiniad o Amgylchiadau Lliniarol**

Mae'r rhain yn amgylchiadau sydd:

- yn effeithio ar allu'r myfyriwr i fynychu neu gwblhau asesiad neu nifer o asesiadau
- yn effeithio ar allu'r myfyriwr i gwblhau lefel, neu nifer yr unedau y maent wedi eu cofrestru arnynt mewn blwyddyn academaidd.
- yn eithriadol
- y tu hwnt i'w rheolaeth
- yn gallu cael eu cadarnhau gan dystiolaeth annibynnol
- yn digwydd yn ystod neu ychydig cyn yr asesiad dan sylw


Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

**Gweithdrefn ar gyfer Ystyried Amgylchiadau Lliniarol**

Lle bo hynny'n bosib dylai myfyriwr yn y lle cyntaf ddefnyddio'r weithdrefn estyniadau i wneud cais am estyniad 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau ar gyfer yr asesiad. Os nad yw hyn yn bosib, neu bod amgylchiadau'n parhau lle mae myfyriwr yn teimlo bod dyddiad cau sydd eisoes wedi cael ei estyn hefyd yn mynd i gael ei fethu, yna bydd angen defnyddio'r weithdrefn amgylchiadau lliniarol.

Os yw myfyriwr yn teimlo bod ganddynt amgylchiadau lliniarol dilys sydd wedi effeithio eu perfformiad neu eu gallu i gwrdd â dyddiad cau asesiad, dylent godi hyn, yn y lle cyntaf, gyda'u Tiwtor Personol neu Arweinydd Rhaglen, a fydd wedyn yn gallu darparu'r gefnogaeth i'r myfyriwr er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r broses, y canlyniadau posib a, lle mae hynny'n ddichonadwy, adnabod y gefnogaeth fyddai'n cynorthwyo'r myfyriwr i allu gwblhau'r gwaith cwrs. Mae'n bosib y cyfeirir y myfyriwr at dimau cefnogi perthnasol o fewn y Coleg lle gallant dderbyn gwybodaeth am gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Mae'n rhaid i'r myfyriwr wneud cais drwy lenwi'r Ffurflen Amgylchiadau Lliniarol. Dylid anfon y Ffurflen Amgylchiadau Lliniarol a'r dystiolaeth gefnogol at yr Arweinydd Rhaglen, gyda chopi at headminteam@cavc.ac.uk

Bydd y cais yn cael ei ystyried gan yr Arweinydd Rhaglen, a fydd, o bosib yn cysylltu gydag aelodau eraill o'r tîm rhaglen, gwasanaethau myfyrwyr a'r tîm rheoli Addysg Uwch er mwyn dod i ganlyniad teg a chyfiawn sydd heb fod yn rhoi'r myfyriwr dan unrhyw anfantais, nac ychwaith yn rhoi unrhyw fantais iddo/iddi.

Yn ddelfrydol dylai myfyrwyr wneud cais am amgylchiadau lliniarol ar adeg pan mae'r amgylchiadau'n digwydd. Fodd bynnag, gellir cyflwyno ceisiadau yn hwyrach na hyn ond mae'n rhaid caniatáu digon o amser iddynt gael eu hystyried cyn y bwrdd asesu perthnasol.

**Yn Seiliedig ar Dystiolaeth**

Er budd tegwch a thryloywder, mae'n rhaid i geisiadau am amgylchiadau lliniarol gael eu cefnogi gan dystiolaeth berthnasol ac annibynnol i gadarnhau'r hawliad a wnaed. Gall hyn gynnwys:

- Tystysgrif marwolaeth
- Tystysgrif Meddygol neu lythyr gan Feddyg Teulu
- Hysbysiadau Cyfreithiol.

Mae tystysgrifau meddygol yn dderbyniol os ydynt:

- wedi'u llofnodi gan ymarferydd meddygol sydd wedi gweld y myfyriwr yn ystod neu yn union wedi cyfnod o salwch
- yn gallu nodi'r dyddiad(au) pan wnaeth y myfyriwr chwilio am gymorth
- yn gallu darparu manylion digonol heb dorri cyfrinachedd am natur a difrifoldeb yr amgylchiadau
- yn gallu dangos graddfa a hyd unrhyw anallu


Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

D.S. Nid yw tystysgrifau meddygol wedi'u llofnodi gan aelodau o'r teulu yn dderbyniol Gellir adrodd amamgylchiadau anfeddygol (e.e. profedigaeth) yn ysgrifenedig, gyda disgrifiad o'r amgylchiadau, pryd wnaethant ddigwydd, a lle bo'n bosib, eu hyd.

**Canlyniadau Posib**

1. Dim Camau Gweithredu - lle nad ystyrir yr amgylchiadau lliniarol i fod yn wedi cael effaith uniongyrchol ar astudiaethau'r myfyriwr neu nad yw'r dystiolaeth yn cael ei hystyried yn ddilys.

2. Estyniad i'r dyddiad cyflwyno - lle mae cytundeb bod yr amgylchiadau lliniarol yn ddilys a bod gofyn i'r dysgwr gyflwyno gwaith gyda dyddiadau cau newydd. D.S. Os yw gwaith sydd wedi'i farcio wedi cael ei ddychwelyd i'r dysgwyr eraill ac y byddai'r dysgwr sy'n gwneud cais am amgylchiadau lliniarol yn cael mantais o adborth yr asesiad, gofynnir i'r dysgwr gwblhau asesiad gwahanol.

3. Dirymu ymgais i gwblhau asesiad a rhoi cyfle i'r asesiad gael ei ailadrodd - lle nad oes ystyriaeth ar gyfer amgylchiadau lliniarol wedi ei roi eisoes a phan fo pawb yn derbyn bod yr amgylchiadau lliniarol wedi arwain at beidio â chyflwyno asesiad neu wedi cael effaith ar berfformiad yn yr asesiad hwnnw.

4. Rhoi ystyriaeth i berfformio'n wael - lle mae'r myfyriwr eisiau i amgylchiadau lliniarol gael eu hystyried gan y bwrdd asesu. Er enghraifft, lle mae salwch wedi effeithio ar allu'r myfyriwr i ymgymryd â gwaith i'r un safon ag a wnaed gyda gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol, er bod y myfyriwr wedi cyflwyno'r gwaith erbyn y dyddiad cau.

   Yn yr achos hwn, mae'n bosib y bydd y Bwrdd Asesu yn penderfynu cynyddu'r dosbarth dyfarnu am gyflawniad academaidd lle mae'r canlynol yn berthnasol:

   - bod gan y myfyriwr farc sydd ar y ffin
   - bod tystiolaeth bod yr amgylchiadau lliniarol wedi cael effaith y tu hwnt i fodiwlau penodol y mae newidiadau eisoes wedi eu gwneud ar eu cyfer
   - ei bod yn amhosib rhoi ystyriaeth ôl-syllol ar lefel modiwl e.e. oherwydd natur y dull asesu

Mae gaen y Bwrdd Asesu yr hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol am amgylchiadau lliniarol os nad yw dogfennaeth wreiddiol yn addas neu os nad yw'r amgylchiadau yr adroddwyd amdanynt yn cael eu hystyried i fod yn ddigon difrifol i warantu ystyriaeth arbennig. Gall y Bwrdd Asesu benderfynu gohirio'r penderfyniad hyd nes i ragor o fanylion gael eu cyflwyno.

Os yw myfyriwr yn mynychu modiwl ond nad yw'n gallu sefyll arholiadau neu gwblhau gwaith cwrs oherwydd amgylchiadau lliniarol, gall y myfyriwr:

- Sefyll arholiad atodol neu gwblhau gwaith cwrs cyn i'r Bwrdd Asesu gwrdd neu
- Sefyll arholiad atodol neu gwblhau gwaith gwrs fel cynnig cyntaf cyn neu yn ystod cyfnodaileistedd arholiadau


Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

**Apelio yn erbyn Penderfyniad**

Os yw'r myfyriwr yn dymuno apelio yn erbyn cais sydd wedi'i wrthod, bydd y Rheolwr Addysg Uwch yn asesu yn y lle cyntaf os oedd y dystiolaeth annibynnol yn cefnogi'n llawn y dyddiadau a nodwyd ar y Ffurflen Amgylchiadau Lliniarol. Os oes unrhyw agwedd o'r ffurflen yn anghyflawn, neu bod angen tystiolaeth bellach, cysylltir â'r myfyriwr a'r Arweinydd Rhaglen er mwyn gwneud cais am yr wybodaeth, neu ddiwygio'r ffurflen. Os yw'r dystiolaeth yn parhau i beidio â chwrdd â'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo, yna fe hysbysir y myfyriwr a'r Arweinydd Rhaglen o hyn yn ffurfiol mewn llythyr, a nodir hynny yn y cofnodion er mwyn adlewyrchu gwrthod y cais yn derfynol a'r rhesymau perthnasol.

Ni fydd hawlio amgylchiadau lliniarol yn ôl-syllol yn cael ei ystyried fel arfer oni bai bod rhesymau eithriadol dros beidio â gwneud hynny ar y pryd. Fel arfer dim ond oherwydd bod y myfyriwr ddim yn gallu datgelu'r amgylchiadau ymlaen llaw o oherwydd diagnosis newydd o gyflwr meddygol fyddai hyn. Nodwch os gwelwch yn dda, oni bai pan fo amgylchiadau eithriadol fel y manylir uchod, na fydd hawliadau amgylchiadau lliniarol sy'n cael eu cyflwyno'n ôl-syllol yn cael eu hystyried i fod yn ddilys.

**Enghreifftiau o amgylchiadau a allai gael eu hystyried yn ddilys yw*:**

- Cyfnod yn yr ysbyty, gan gynnwys llawdriniaethau
- Problemau iechyd
- Problemau personol neu seicolegol y mae'r myfyriwr yn derbyn cwnsela amdano neu os ydynt wedi cael eu cyfeirio at gwnselydd neu ymarferydd cymwysedig arall.
- Profedigaeth
- Damwain neu anaf difrifol, afiechyd neu gyflwr eithriadol sy'n cyd-daro gyda dyddiad cau asesiad neu arholiad neu brawf, neu eu bod yn para mor hir fel bodeffaithhirdymor ar ran sylweddol o'r tymor
- Problemau iechyd meddwl
- Torri mewn i dŷ/lladrad/damwain car ddifrifol
- Cael eich glaw i wasanaethu ar reithgor ac nad oes modd ei ohirio
- Diagnosis hwyr, er enghraifft, o ddyslecsia a arweiniodd at ddiffyg cefnogaeth na darpariaeth arholiadau.

**Enghreifftiau o amgylchiadau na fyddai fel arfer yn cael eu hystyried yn ddilys yw*:**

- Problemau gyda chyfrifiaduron megis methu uwch-lwytho asesiad i Turnitin
- Problemau rheoli amser (e.e. dyddiadau cau sy'n gwrthdaro)
- Apwyntiadau (cyfreithiol, meddygol a.y.y.b.) y gellid eu haildrefnu
- Problemau gofal plant y gellid bod wedi eu rhagweld
- Damweiniau neu salwch yn effeithio ar berthnasau neu ffrindiau (oni bai eu bod y myfyriwr yw'r unig un sy'n darparu gofal)
- Straen amhenodol, iselder ysgafn neu straen arholiadau
- Peswch, annwyd, anhwylder anadlu, dolur gwddf, anhwylderau o ganlyniad i firws bach, oni bai bod yr afiechyd yn ei anterth ar adeg arholiad, prawf diwedd modiwl-neu brawf yn y dosbarth a bod tystiolaeth gefnogol yn cyfeirio at yr effaith ar berfformiad y myfyriwr
- Problemau ariannol (ac eithrio achosion o galedi eithriadol)


Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

- Gwyliau, symud tŷ, dathliadau teuluol

*enghreifftiau yw'r rhain, ac nid rhestr gyflawn o amgylchiadau

## Lleoliad a Mynediad at y Weithdrefn

Mae hon ar gael ar y wefan, mewnrwyd staff a Moodle, ac efallai na fydd yn gyfredol os yw wedi'i hargraffu.

**Dyddiad cymeradwyo:** 8fed Mawrth 2024

**Rheolwr Cyfrifol:** Pennaeth Ansawdd

**Cymeradwywyd gan:** **Arweinydd Gweithredol Cynorthwyol Ansawdd**

QSB: **Pennaeth**

**Dyddiad adolygu:** 8fed Mawrth 2026

**Hygyrch i Fyfyrwyr:** Do


Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.


| | |
|---|---|
| **Rhif Adolygiad:** | 2 |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | 08/03/24 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 08/03/26 |

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.


| | |
|---|---|
| **Rhif Adolygiad:** | 2 |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | 08/03/24 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 08/03/26 |

**ATODIAD A**

# FFURFLEN ESTYNIAD

**Mae'n rhaid i fyfyrwyr wneud cais ffurfiol am estyniad gan ddarparu tystiolaeth o'r rhesymau dros beidio â chadw at y dyddiad cau.**

**Dylid cyflwyno pob cais am estyniad o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cyflwyno. Anfonwch eich Ffurflen Estyniad wedi'i chwblhau at eich Tiwtor Cwrs gyda chopi at** headminteam@cavc.ac.uk

## MANYLION ESTYNIAD:

Enw Llawn: Cliciwch neu tapiwch yma i ysgrifennu.

Rhif Adnabod Myfyriwr: Cliciwch neu tapiwch yma i ysgrifennu.

Rheswm dros yr Estyniad: Dewiswch eitem.

## MANYLION ASESU:

Rhif Uned: Cliciwch neu tapiwch yma i ysgrifennu.

Teitl yr Uned: Cliciwch neu tapiwch yma i ysgrifennu.

Rhif Asesiad: Cliciwch neu tapiwch yma i ysgrifennu.

Ymgais Asesiad Dewiswch eitem.

Dyddiad Cau Asesiad: Cliciwch neu tapiwch i nodi dyddiad.

Gallwch glicio'r symbol + ar waelod dde'r adran uchod er mwyn ychwanegu asesiadau at eich cais am estyniad.

## DATGANIAD:

☐ Rwy'n cadarnhau bod yr wybodaeth rwyf wedi'i rhoi yn wir ac yn gywir, hyd y gwn i. Rwy'n deall bod unrhyw wybodaeth ffug neu hepgor gwybodaeth yn fwriadol yn dirymu fy estyniad ac y gallai arwain at gamau disgyblu.

Llofnodwyd: Cliciwch neu tapiwch yma i ysgrifennu testun. Dyddiad: Cliciwch neu tapiwch i nodi dyddiad.

## DIOGELU DATA:

Bydd data personol sy'n cael ei gasglu ar y ffurflen hon yn cael ei ddefnyddio at ddibenion ystyried eich estyniad a bydd yn cael ei gadw ar ffeil. Mae'n bosib y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yma i adnabod cefnogaeth neu wasanaethau a allai fod o fudd i chi. Ni fydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei rhannu y tu hwnt i'r rhai sy'n prosesu'r estyniad. Am wybodaeth bellach, gweler y polisi Preifatrwydd sydd ar gael yma https://cavc.ac.uk/cy/about-cavc/about/policies-and-procedures/privacy-policy

**ATODIAD B** FFURFLEN AMGYLCHIADAU LLINIAROL

**Cyn llenwi'r ffurflen hon, sicrhewch eich bod yn darllen Canllawiau Amgylchiadau Lliniarol isod**

**Mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i gefnogi eich cais,** dylai hwn fod gan weithiwr proffesiynol sydd yn gysylltiedig gyda'ch amgylchiadau. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth fod yn uniongyrchol berthnasol i'ch amgylchiadau a dyddiad eich asesiad.

Os ydych chi angen cymorth i gwblhau'r ffurflen, **cysylltwch gyda'r Tîm Gweinyddol AU yn CCAF,** fydd yn rhoi cyngor ar ba dystiolaeth y byddwch ei hangen er mwyn cefnogi eich cais.

Anfonwch eich Ffurflen Estyniad wedi'i chwblhau at **eich Tiwtor Cwrs gyda chopi at** headminteam@cavc.ac.uk

## MANYLION LLINIAROL:

Enw Llawn: Cliciwch neu tapiwch yma i ysgrifennu.

Rhif Adnabod Myfyriwr: Cliciwch neu tapiwch yma i ysgrifennu.

Rheswm dros y Lliniaru: Dewiswch eitem.

## MANYLION ASESU:

Rhif Uned: Cliciwch neu tapiwch yma i ysgrifennu.

Teitl yr Uned: Cliciwch neu tapiwch yma i ysgrifennu.

Rhif Asesiad: Cliciwch neu tapiwch yma i ysgrifennu.

Ymgais Asesiad Dewiswch eitem.

Dyddiad Cau Asesiad Cliciwch neu tapiwch i nodi dyddiad.

Gallwch glicio'r symbol + ar ochr dde gwaelod yr adran uchod neu ychwanegu mwy o asesiadau i'ch cais am estyniad.

## DATGANIAD:

☐ Rwy'n cadarnhau bod yr wybodaeth rwyf wedi'i rhoi yn wir ac yn gywir, hyd y gwn i. Rwy'n deall bod unrhyw wybodaeth ffug neu hepgor gwybodaeth yn fwriadol yn dirymu fy estyniad ac y gallai arwain at gamau disgyblu.

Llofnodwyd: Cliciwch neu tapiwch yma i ysgrifennu testun. Dyddiad: Cliciwch neu tapiwch i nodi dyddiad.

## DIOGELU DATA:

Bydd y data sy'n cael ei gasglu ar y ffurflen hon yn cael ei ddefnyddio at ddibenion ystyried eich cais am estyniad a bydd yn cael ei gadw ar eich ffeil. Mae'n bosib y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yma i adnabod cefnogaeth neu wasanaethau a allai fod o fudd i chi. Ni fydd yr wybodaeth a ddarperir yn cael ei rhannu y tu hwnt i'r rhai sy'n prosesu'r estyniad. Am ragor o wybodaeth, gweler ein polisi Preifatrwydd yma https://cavc.ac.uk/cy/about-cavc/about/policies-and-procedures/privacy-policy